ADRAN 3

3. Cael Gwybodaeth a Chymryd Rhan

3.1 Cael Gwybodaeth

3.1.1 Gwybodaeth a fydd ar gael i'r Cyhoedd

(a) Pryd y Cynhelir Cyfarfodydd y Cyrff Aelodau

Mae rhaglen o gyfarfodydd ar gael trwy gysylltu â'r Cyngor yn uniongyrchol neu drwy'r wefan.

(b) Blaenraglen Waith

Mae'r Flaenraglen Waith yn dangos pa benderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud gan y Cabinet neu'r Cyngor a pha faterion y bydd y Pwyllgor Craffu yn eu hystyried, a phryd y bydd y materion hyn yn cael eu trafod.

(c) Gwybodaeth a fydd ar gael cyn cyfarfod

5 diwrnod clir cyn cyfarfod, bydd yr agenda, unrhyw adroddiad sy'n debygol o gael ei drafod a phapurau cefndir yr adroddiad hwnnw ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd y Cyngor ac ar y wefan. Os ychwanegir eitem i'r agenda yn ddiweddarach, bydd yr agenda ddiwygiedig ar gael i'w harchwilio o'r adeg yr ychwanegir yr eitem i'r agenda a sicrheir y bydd unrhyw adroddiad ar gael i'r cyhoedd cyn gynted â'i fod ar gael ac yn cael ei anfon at Gynghorwyr.

(ch) Gwybodaeth a fydd ar gael yn ystod cyfarfod

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod nifer rhesymol o gopïau o'r Agenda a'r Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod ar gael i'r cyhoedd sy'n bresennol yn y cyfarfod (ac eithrio yn ystod unrhyw ran o'r cyfarfod y caiff y cyhoedd eu gwahardd ohoni).

(d) Gwybodaeth a fydd ar gael ar ôl cyfarfod

Bydd agenda, adroddiadau a chofnodion y cyfarfod ar gael i'w harchwilio am gyfnod o chwe blynedd. Bydd y papurau cefndir ar gael i'w harchwilio am gyfnod o bedair blynedd.

(dd) Cyfrifon y Cyngor

Archwilio cyfrifon y Cyngor a chyflwyno safbwyntiau i'r archwilydd allanol (adrannau 29 a 30 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004). O dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, bydd y cyfrifon ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio am ugain (20) niwrnod gwaith ar ôl y dyddiad a bennwyd gan yr archwilydd.

Ni fydd gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig (fel y'i diffinnir ym mharagraffau 14.10.3 a 14.10.4) yn cael ei datgelu i aelodau'r cyhoedd ar unrhyw bryd.

3.1.1 Gwybodaeth a fydd ar gael i Aelodau'r Cyngor

(a) Gall Aelodau weld unrhyw wybodaeth sydd ar gael i aelod o'r cyhoedd.

(b) Yn ogystal, caiff Aelod weld unrhyw wybodaeth y mae angen iddo ef neu iddi hi ei gwybod er mwyn cyflawni ei rôl fel Aelod o'r Cyngor (a adwaenir fel arall fel "angen gwybod"). Ni fydd Aelod yn rhyddhau gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig (fel y'i diffinnir yn Adran 14) heb ganiatâd y Cyngor nac yn datgelu gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol i unrhyw un heblaw Cynghorydd neu unigolyn/unigolion neu sefydliad(au) y mae ganddynt hawl i'w gwybod.

3.1.3 Aelodau Pwyllgor Craffu

Caiff Aelod o Bwyllgor Craffu hefyd weld unrhyw ddogfen sy'n cynnwys deunydd yn ymwneud ag:

(a) unrhyw gyfarfod o'r Cabinet neu unrhyw fusnes a wnaed mewn cyfarfod o'r fath;

(b) unrhyw benderfyniad a wnaed gan Aelod unigol o'r Cabinet.

Nid oes hawl gan Aelod o Bwyllgor Craffu i weld:

(c) unrhyw ddogfen ar ffurf ddrafft;

(ch) unrhyw ran o ddogfen sy'n cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig oni bai bod y wybodaeth honno'n berthnasol i gam gweithredu neu benderfyniad y mae'n ei adolygu neu'n craffu arno neu'n bwriadu craffu arno, a'i fod wedi'i gynnwys ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor.

DB. Nid oes hawl gan unrhyw Aelod i weld unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â mater y mae ganddo ef neu ganddi hi fuddiant sy'n rhagfarnu ynddo.

3.1.4 Gwybodaeth a fydd ar gael i Swyddogion

Caiff y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151 a'r Prif Weithredwr weld unrhyw bapurau neu gofnodion a gedwir gan unrhyw ran o'r Cyngor neu ei Swyddogion. Caiff Swyddogion eraill weld unrhyw wybodaeth a gedwir gan y Cyngor cyn belled ag y bo:

(a) angen iddynt weld y wybodaeth i wneud eu gwaith; a

(b) bod y wybodaeth honno'n cael ei phrosesu'n gyfreithlon yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

3.2 Cymryd Rhan

3.2.1 Aelodau'r Cyhoedd

Gall aelodau'r cyhoedd gymryd rhan yn y ffyrdd canlynol:

(a) Pleidleisio dros Gynghorwyr

Os ydynt dros 18 oed ac wedi'u cofrestru yn etholwr lleol gyda'r Cyngor.

(b) Awgrymu Eitemau Busnes ar gyfer Cyfarfodydd

Gall aelod o'r cyhoedd geisio cael mater wedi'i gynnwys ar agenda trwy ofyn i Gadeirydd unrhyw Gorff Aelodau ychwanegu eitem at yr agenda.

(c) Cymryd Rhan mewn Cyfarfodydd

(i) Gall aelodau'r cyhoedd fynychu a siarad mewn unrhyw gyfarfod y mae'r Cyngor wedi penderfynu y dylai gynnwys cyfranogiad gan y cyhoedd. Mae'r rheolau ynglŷn â phryd y cewch siarad ac am ba hyd wedi'u cynnwys yn Adran 4.

(ii) Gallwch hefyd ofyn Cwestiynau Ffurfiol yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn (Adran 4).

(ch) Safbwyntiau'r Cyhoedd

Yn unol â'r trefniadau a sefydlwyd gan yr Awdurdod o dan adran 62 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, i sicrhau bod safbwyntiau'r cyhoedd ar unrhyw fater sy'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu perthnasol yn cael eu dwyn i sylw'r Pwyllgor perthnasol, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Craffu perthnasol ystyried unrhyw safbwyntiau a ddygir i'w sylw o dan y trefniadau hyn.

(d) Pryd y bydd Cyfarfodydd ar Agor i'r Cyhoedd?

Bydd cyfarfodydd ar agor i'r cyhoedd pryd bynnag y bo'n bosibl. Mae'n rhaid gwahardd y cyhoedd o gyfarfodydd pryd bynnag y bo'n debygol y bydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu. Ceir gwahardd y cyhoedd o gyfarfodydd lle y mae'n debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu. (Gweler adran 14.10 am ddiffiniad o wybodaeth eithriedig ac adran 14.11 am ddiffiniad o fudd y cyhoedd).

(dd) Gwneud Sylwadau/Cwynion

(i) Caiff aelod o'r cyhoedd wneud sylw neu gwyno am wasanaethau'r cyngor trwy:

(A) gysylltu â'i gynghorydd lleol;

(B) cysylltu â'r Aelod o'r Cabinet sy'n gyfrifol am y gwasanaeth;

(C) cysylltu â'r Swyddog sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth neu ei reolwr;

(CH) defnyddio gweithdrefn gwyno'r Cyngor;

(D) cysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn 1 Ffordd Yr Hen Gae, Pencoed, CF35 5LJ. Rhif ffôn: 0845 601 0987 neu drwy'r wefan www.ombudsman-wales.org.uk.

(ii) Gellir gwneud sylwadau neu gwynion am Swyddog neu Aelod trwy:

(A) Swyddog

Cysylltu â'r Swyddog neu reolwr y Swyddog.

(B) Aelodau

Os yw'r gŵyn yn erbyn Aelod, dylid ei chyfeirio at y Swyddog Monitro neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (manylion cyswllt uchod).

(e) Ymgysylltu â Throsolwg a Chraffu

Caiff pob aelod o'r cyhoedd sy'n byw neu'n gweithio yn ardal y Cyngor gyflwyno eu safbwyntiau i Bwyllgor Craffu ar unrhyw fater sy'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor[hwnnw. Mae'n rhaid i Bwyllgor Craffu ystyried unrhyw safbwyntiau a ddygir i'w sylw gan aelod o'r cyhoedd.

3.3 Cymryd Rhan – Aelodau

Gall Aelodau gymryd rhan trwy:

3.3.1 Awgrymu Eitemau Busnes ar gyfer yr Agenda

Fel Aelod o'r Cyngor, mae gennych chi'r un hawliau ag aelodau'r cyhoedd. Yn ogystal â'r hawliau hyn, mae gennych chi'r hawliau canlynol hefyd:

(a) Gall y Cyrff Aelodau yng Ngholofn A ofyn i'r Cyrff Aelodau yng Ngholofn B ystyried neu ailystyried mater.

Colofn A	Colofn B
Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd	Y Cyngor
Pwyllgor Craffu	y Cabinet

(b) Gall unrhyw Aelod gyflwyno Hysbysiad o Gynnig i'r Cyngor (Adran 4) a gofyn cwestiynau hefyd (Adran 4).

3.3.2 Cymryd Rhan mewn Cyfarfodydd

Mae gan Aelodau'r Cyngor yr hawl i fynychu unrhyw gyfarfod ffurfiol o'r Cyngor, ei bwyllgorau neu is-bwyllgorau neu'r Cabinet.

(a) Caiff Aelodau'r Cyngor fynychu a siarad mewn unrhyw gyfarfod lle y maent yn Aelodau o'r corff hwnnw. Lle nad ydynt yn Aelodau o'r corff hwnnw, mae eu presenoldeb a'u hawl i siarad yn ôl disgresiwn Cadeirydd y corff hwnnw.

(b) Mae gan Aelodau'r Cabinet rôl arbennig i'w chyflawni yn y Cyngor. Mae ganddynt yr hawl i arfer unrhyw Swyddogaeth Weithredol cyn belled ag y bo'r Swyddogaeth Weithredol honno wedi'i dirprwyo iddynt gan Arweinydd y Cyngor.

3.3.3 Sylwadau a Chwynion

(a) Caiff Aelodau wneud sylwadau, yn amodol ar y cyfyngiadau a nodir yn y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau (Adran 18), ar unrhyw agwedd ar fusnes y Cyngor trwy:

(i) siarad â Swyddogion;

(ii) siarad â'r Arweinydd neu Aelod o'r Cabinet;

(iii) siarad â Chadeirydd Pwyllgor Craffu .

(b) Os dymuna Aelod wneud cwyn am:

(i) Swyddog

Ceir defnyddio'r weithdrefn a amlinellir yn y Protocol ar Gysylltiadau Aelodau/Swyddogion (Adran 21).

(ii) Aelod

Ceir dilyn y weithdrefn a amlinellir yn Atodiad 3 i Adran 18.